


Brawddegau



Camgymeriad cyffredin ydy
ysgrifennu brawddegau diflas neu rai
sydd ddim yn gwneud synnwyr!

DYMA HELP
DYMA HELP

☆ Beth ydy brawddeg?

Yn syml, uned sy'n gwneud synnwyr ar ei phen ei hun.

e.e. Achos ei fod yn denau. X (Ddim yn frawddeg)
Enillodd y ras gan ei fod yn denau. ✓ (Mae hon yn frawddeg)

☆ Beth am ddefnyddio ffyrdd gwahanol o ddechrau brawddegau:

Gwelais, Rhedodd, Teimla, Agorwyd ...
Ar ôl, Cyn, Wedyn, Yna, Pan ...
Ymhen deuddydd, Ymhen wythnos ...
Yn gyntaf, Yn ail, Yn drydydd ...
Yn dawel, Yn gyfrwys ...
Heb, Gyda ...
Er bod, Serch, Oherwydd, Er mwyn ...
Felly, Mewn gwirionedd, O ganlyniad, Fel ...

☆ Mae angen ail hanner os yn cychwyn efo un o'r rhain:

Oherwydd ...	Cyn ...
Er bod ...	Pan ...
Er mwyn ...	Ar ôl ...
e.e. Er bod Siôn yn sâl.	X
Er bod Siôn yn sâl, aeth i'w waith.	✓



Cofiwch amrywio hyd eich brawddegau drwy:

1. Ddefnyddio cysylltair: a, ac, â/ag, neu, er, ond, pan, er pan, tra, oni, hyd oni, os, pe.

e.e. *Rhedais adref ond ni chefais fwyd.*
Rhedais adref er fy mod yn gloff.
Rhedais adref a chefais fwyd.
Rhedais adref â'm gwynt yn fy nwrn.

2. Rhoi sawl adran i'r frawddeg:

e.e. *Prynais y llyfr a darllenas ef yn awchus.*
Prynais y llyfr a enillodd y wobr yn yr Eisteddfod Genedlaethol llynedd.
Prynais y llyfr y clywais amdano ar y radio neithiwr.
Prynais y llyfr a darllenas ef yn gyflym ar ôl swper cyn ffonio fy ffrind i ddweud wrtho am ddarllen y llyfr ar unwaith.

NEGYDDU BRAWDDEGAU

ANGHYWIR	CYWIR	
	Ar lafar ac wrth sgwennu	Ffurfiol / Safonol
Mae fi ddim	Dydw i ddim	Nid ydw i / Nid wyf i
Mae e / hi ddim	Dydy e / hi ddim	Nid ydyw ef / hi
Mae ni ddim	Dydyn ni ddim	Nid ydym ni
Maen nhw ddim	Dydyn nhw ddim	Nid ydynt hwy
Roeddwn i ddim	Doeddwn i ddim	Nid oeddwn i
Roedd e / hi ddim	Doedd e / hi ddim	Nid oedd ef / hi
Mae gen i ddim	Does gen i ddim	Nid oes gennyf
Fasa fi ddim	Faswn i ddim	Fuaswn i ddim
Mae Siân ddim	Dydy Siân ddim	Nid ydyw Siân
Dydy Aled heb wedi	Dydy Aled ddim wedi	Nid yw Aled wedi
Fi ddim gyda beiro	Does dim beiro gen i	Nid oes beiro gennyf
Dydy Mair heb wedi gwranddo	Dydy Mair ddim wedi gwranddo	Nid yw Mair wedi gwranddo